OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2009 Rhif 1558 (Cy.153)

# GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2009

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer trosglwyddo ar 1 Hydref 2009 staff, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau o Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a ddiddymwyd gan Orchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diddymu) (Cymru) (O.S. 2009/1306 (Cy.117)) i'r Byrddau Iechyd Lleol newydd a sefydlwyd gan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/778 (Cy. 66)).

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

# 2009 No. 1558 (W.153)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The National Health Service Trusts (Transfer of Staff, Property, Rights and Liabilities) (Wales) Order 2009

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order provides for the transfer on 1 October 2009 of staff, property, rights and liabilities from the National Health Service Trusts dissolved by the National Health Service Trusts (Dissolution) (Wales) Order (S.I. 2009/1306 (W. 117)) to the new Local Health Boards established by the Local Health Boards (Establishment and Dissolution) (Wales) Order 2009 (S.I. 2009/ 778 (W.66)).

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2009 Rhif 1558 (Cy.153)

# GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *24 Mehefin 2009* |
| *Yn dod i rym* | *1 Hydref 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 18 a 203 (9) a (10) o baragraff 29 o Atodlen 3 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) ar ôl cwblhau ymgynghoriad statudol fel y'i rhagnodir o dan baragraff 29(4) o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno(**2**) yn gwneud Gorchymyn hwn.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1**.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2009 a daw i rym ar 1 Hydref 2009.

(2) Yn y Gorchymyn hwn;

ystyr "Bwrdd newydd perthnasol" ("*relevant new Board*") yw mewn perthynas â hen ymddiriedolaeth a bennir yng ngholofn 1 o'r Atodlen, y Bwrdd newydd a bennir yng ngholofn 2 o'r Atodlen honno;

ystyr "Byrddau newydd" ("*new Boards*") yw'r Byrddau Iechyd Lleol a restrir yng ngholofn 2 o'r Atodlen;

ystyr "dyddiad trosglwyddo" ("*transfer date*") yw 1 Hydref 2009; ac

(**1**) 2006. p.42.

(**2**) Rheoliadau Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ymgynghori ar Sefydlu a Diddymu) 1996 (O.S. 1996/653 sy'n parhau i gael ei effaith yn rhinwedd paragraff 1(2) o Atodlen 2 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006.

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

# 2009 No. 1558 (W.153)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The National Health Service Trusts (Transfer of Staff, Property, Rights and Liabilities) (Wales) Order 2009

| | |
|---|---|
| *Made* | *24 June 2009* |
| *Coming into force* | *1 October 2009* |

The Welsh Ministers in exercise of powers conferred on them by sections 18 and 203(9) and (10) of and paragraph 29 of Schedule 3 to the National Health Service (Wales) Act 2006(**1**) after completion of statutory consultation as prescribed under paragraph 29(4) of Schedule 3 to that Act(**2**) make this Order.

### Title, Commencement and Interpretation

**1**.—(1) The title of this Order is the National Health Service Trusts (Transfer of Staff, Property, Rights and Liabilities) (Wales) Order 2009 and it comes into force on 1 October 2009.

(2) In this Order;

"new Boards " ("*Byrddau newydd*") are the Local Health Boards listed in column 2 of the Schedule;

"old trusts" ("*hen ymddiriedolaethau*") are the National Health Service trusts listed in column 1 of the Schedule;

"relevant new Board" ("*Bwrdd newydd perthnasol*") means in relation to an old trust specified in column 1 of the Schedule, the new Board which is specified in column 2 of that Schedule;

(**1**) 2006. c.42.

(**2**) The National Health Service Trusts (Consultation on Establishment and Dissolution) Regulations 1996 (S.I. 1996/653) which continue to have effect by virtue of paragraph 1(2) of Schedule 2 to the National Health Service (Consequential Provisions) Act 2006.

ystyr "hen ymddiriedolaethau" ("*old trusts*") yw Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a restrir yng ngholofn 1 o'r Atodlen.

"transfer date" ("*dyddiad trosglwyddo*") means the 1 October 2009.

**Trosglwyddo cyflogeion i'r trosglwyddai**

**2**.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), trosglwyddir contract cyflogaeth unrhyw berson a oedd yn union cyn y dyddiad trosglwyddo yn cael ei gyflogi gan yr hen ymddiriedolaeth i'r Bwrdd newydd perthnasol ar y dyddiad trosglwyddo a bydd y contract hwnnw yn effeithiol fel petai wedi ei wneud yn wreiddiol rhwng y person a gyflogwyd felly a'r Bwrdd newydd perthnasol.

(2) Heb leihau effaith paragraff (1) uchod —

(a) trosglwyddir pob hawl, pŵer, dyletswydd a rhwymedigaeth o dan neu mewn cysylltiad â chontract y mae'r paragraff hwnnw yn gymwys iddo, yn rhinwedd yr erthygl hon, i'r Bwrdd newydd perthnasol ar y dyddiad trosglwyddo;

(b) bernir bod unrhyw beth a wnaed cyn y dyddiad hwnnw gan, neu mewn perthynas â'r hen ymddiriedolaeth o ran y contract hwnnw neu'r cyflogai hwnnw, wedi ei wneud gan neu mewn perthynas â'r Bwrdd newydd perthnasol.

(3) Nid yw paragraffau (1) na (2) yn lleihau effaith hawl unrhyw gyflogai i ddod â'i gontract cyflogaeth i ben os gwneir newid sylweddol er gwaeth i'w amodau gwaith, ond ni fydd y cyfryw hawl yn codi yn unig ar sail y newid o ran cyflogwr y mae'r erthygl hon yn ei beri.

**Transfer of employees to the transferee**

**2**.—(1) Subject to paragraph (3), any person who immediately before the transfer date, was employed by the old trust has his or her contract of employment transferred to the relevant new Board on the transfer date and that contract will have effect as if originally made between the person so employed and the relevant new Board.

(2) Without prejudice to paragraph (1) above —

(a) all the rights, powers, duties and liabilities under or in connection with a contract to which that paragraph applies will, by virtue of this article, be transferred to the relevant new Board on the transfer date;

(b) anything done before that date by, or in relation to, the old trust in respect of that contract or that employee, will be deemed from the transfer date to have been done by, or in relation to, the relevant new Board.

(3) Paragraphs (1) and (2) are without prejudice to any right of any employee to terminate his or her contract of employment if a substantial change is made to his or her detriment in his or her working conditions, but no such right shall arise by reason only of the change in employer effected by this article.

**Trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau**

**3**. Ar y dyddiad trosglwyddo trosglwyddir pob eiddo, ac i'r graddau na chyfeirir atynt yn erthygl 2, bob hawl a rhwymedigaeth sydd gan yr hen ymddiriedolaethau i'r Byrddau newydd perthnasol, gan gynnwys heb gyfyngiad y ddyletswydd i lunio cyfrifon gweddilliol yr hen ymddiriedolaethau ac i gyflawni pob dyletswydd statudol sy'n perthyn i'r cyfrifon hynny.

**Transfer of property, rights and liabilities**

**3**. On the transfer date all the property and, in so far as not referred to in article 2, the rights and liabilities of the old trusts are transferred to the relevant new Boards, including without limitation the duty to prepare the outstanding accounts of the old trusts and to perform all statutory duties relating to those accounts.

*Edwina Hart*

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

24 Mehefin 2009

24 June 2009

## YR ATODLEN

Erthygl 1(2)

| *Colofn 1* | *Colofn 2* |
|---|---|
| **Hen Ymddiriedolaeth** | **Bwrdd Newydd(1)** |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cwm Taf(**2**) | Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Hywel Dda(**3**) | Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg(**4**) | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Cymru(**5**) | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd-orllewin Cymru(**6**) | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gofal Iechyd Gwent(**7**) | Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro(**8**) | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro |

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2009

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

(**1**) Sefydlwyd yn rhinwedd Gorchymyn y Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/ 778 (Cy. 66 )).

(**2**) O.S. 2008/717 (Cy. 76).

(**3**) O.S. 2008/712 (Cy. 73).

(**4**) O.S. 2008/716 (Cy. 75).

(**5**) O.S. 2008/1648 (Cy. 160).

(**6**) O.S. 1998/3314.

(**7**) O.S. 1998/3321.

(**8**) O.S. 1999/3451.

## SCHEDULE

Article 1(2)

| *Column 1* | *Column 2* |
|---|---|
| **Old Trust** | **New Board(1)** |
| Cwm Taf National Health Service Trust(**2**) | Cwm Taf Local Health Board |
| Hywel Dda National Health Service Trust(**3**) | Hywel Dda Local Health Board |
| Abertawe Bro Morgannwg University National Health Service Trust(**4**) | Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board |
| North Wales National Health Service Trust (**5**) | Betsi Cadwaladr University Local Health Board |
| North West Wales National Health Service Trust(**6**) | Betsi Cadwaladr University Local Health Board |
| Gwent HealthCare National Health Service Trust(**7**) | Aneurin Bevan Local Health Board |
| Cardiff and Vale National Health Service Trust(**8**) | Cardiff and Vale University Local Health Board |

© Crown copyright 2009

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) Established by virtue of the Local Health Boards (Establishment and Dissolution) (Wales) Order 2009 (S.I. 2009/ 778 (W. 66 )).

(**2**) S.I. 2008/717 (W. 76).

(**3**) S.I. 2008/712 (W. 73).

(**4**) S.I. 2008/716 (W. 75).

(**5**) S.I. 2008/1648 (W. 160).

(**6**) S.I. 1998/3314.

(**7**) S.I. 1998/3321.

(**8**) S.I. 1999/ 3451.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2009 Rhif 1558 (Cy.153)

## GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2009

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2009 No. 1558 (W.153)

## NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The National Health Service Trusts (Transfer of Staff, Property, Rights and Liabilities) (Wales) Order 2009

£4.00

W506/07/09 ON